COP 1 12.24 Y Llys Gwarchod

# Ffurflen gais

| At ddefnydd swyddfa yn unig |
|---|
| Rhif yr achos |
| Rhif y cais |
| Dyddiad derbyn |
| Dyddiad cychwyn |

Enw llawn yr unigolyn y mae'r ffurflen yn berthnasol iddo
(hwn yw enw'r unigolyn heb allu, neu yr honnir heb allu)

SÊL

**Ni fydd eich cais yn gyflawn oni bai bod yr holl ffurflenni ac atodiadau perthnasol, gan gynnwys ble bo'n briodol COP3 (a COP4), yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd gyda ffi neu gais dileu ffi (Gweler y canllawiau ar ddiwedd y ffurflen hon). Cyflwynwch y ffurflen gais COP1 wedi'i dyblygu.**

Ni ddylid defnyddio'r ffurflen hon mewn perthynas â cheisiadau sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid (DoL) o dan adran 21A o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) sy'n ymwneud ag awdurdodiad safonol neu frys o dan Atodlen A1 neu'r cais wedi'i symleiddio o dan adran 4A(3) ac 16(2)(a) o'r Ddeddf. Ar gyfer y ceisiadau hynny ewch i'n gwefan yn www.gov.uk/court-of-protection

## Adran 1 – Math o gais

1.1 Pa fath o gais ydych yn bwriadu ei wneud?

| **Dirprwy, dirprwy arfaethedig neu arall:** | **Ticiwch** | **Atodwch Atodiad/ Ffurflen:** |
|---|---|---|
| Penodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion | ☐ | COP1A |
| Eiddo a materion (ble nad oes angen dirprwy) | ☐ | COP1A |
| Penodi dirprwy ar gyfer lles personol | ☐ | COP1B |
| Gorchymyn lles personol (ble nad oes angen dirprwy) | ☐ | COP1B |
| Cais yn ymwneud ag ewyllys statudol, codisil, rhodd(ion), gweithred amrywio neu setliad eiddo arall | ☐ | COP1C |
| Cais yn ymwneud â phenodi neu ryddhau ymddiriedolwr | ☐ | COP1D a COP12 |
| Cais gan ddirprwy presennol | ☐ | COP1E |
| Ceisiadau eraill | ☐ | COP24 |
| **Atwrneiaeth Barhaus (EPA) neu Atwrneiaeth Arhosol (LPA)** | **Ticiwch** | **Atodwch Atodiad/ Ffurflen:** |
| Cwestiwn dilysrwydd neu weithrediad EPA/LPA | ☐ | COP1F |
| Cais yn ymwneud ag ewyllys statudol, codisil, rhodd(ion), gweithred amrywio neu setliad eiddo arall | ☐ | COP1C |
| Cais yn ymwneud â phenodi neu ryddhau ymddiriedolwr | ☐ | COP1D a COP12 |
| Cais gan atwrnai presennol | ☐ | COP1E |
| Ceisiadau eraill | ☐ | COP24 |


© Hawlfraint y Goron 2024

1.2 A oes angen caniatâd arnoch i wneud y cais hwn?

- [ ] Oes, **mae’n rhaid i chi lenwi adran 6**
- [ ] Nac oes

1.3 Ydych chi angen gorchymyn/cyfarwyddiadau interim brys?

- [ ] Ydw, llenwch y blwch isod
- [ ] Nac ydw

Nodwch y gorchymyn/cyfarwyddiadau a geisir a’r rheswm dros y brys - gallwch atodi gorchymyn/cyfarwyddiadau interim drafft

## Adran 2 – Eich manylion (y ceisydd/ceiswyr)

2.1 Ceisydd cyntaf ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ______

Enw llawn

Cyfeiriad

Ffôn

E-bost

Eich perthynas â’r unigolyn y mae’r cais hwn yn ymwneud â nhw (e.e. Mam, Tad, Brawd)

Ail geisydd ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall ______

Enw llawn

Cyfeiriad

Ffôn

E-bost

Eich perthynas â’r unigolyn y mae’r cais hwn yn ymwneud â nhw (e.e. Mam, Tad, Brawd)

**(Os oes mwy na 2 geisydd, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau)**

2.2 Ym mha gapasiti ydych yn gwneud y cais?

- ☐ Dirprwy arfaethedig/dirprwy
- ☐ Fi yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef
- ☐ Atwrnai
- ☐ Arall (rhowch fanylion) ____________

2.3 Nodwch **un** cyfeiriad y dylid anfon dogfennaeth swyddogol ar y cam hwn (sylwer oni bai y nodir isod caiff y ddogfennaeth ei hanfon i gyfeiriad Ceisydd 1)

- ☐ Cyfeiriad Ceisydd 1
- ☐ Cyfeiriad Ceisydd 2
- ☐ Cyfeiriad cyfreithiwr (os yw cyfreithiwr yn eich cynrychioli, rhowch fanylion isod)
- ☐ Cyfeiriad arall (os nad oes gennych gyfreithiwr ond bod gennych gyfeiriad arall yr hoffech i'r ddogfennaeth gael ei hanfon yno, rhowch fanylion isod)

Cyswllt neu enw Cyfreithwyr ____________

Cyfeiriad ____________

Ffôn ____________

E-bost ____________

Rhif DX ____________

## Adran 3 – Yr unigolyn y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef

3.1 ☐ Mr. ☐ Mrs. ☐ Miss ☐ Ms. ☐ Arall

Enw(au) cyntaf ____________

Cyfenw ____________

Cyfeiriad ____________

Ffôn ____________

Dyddiad geni ____________ ☐ Gwryw ☐ Benyw

3.2 Pa fath o lety mae'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw yn byw?

(e.e. cartref ei hun, rhentu, cartref gofal)

Dyddiad symud ☐ Dros dro ☐ Parhaol

3.3 A yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef:

☐ Wedi priodi neu mewn partneriaeth sifil — Dyddiad y briodas neu'r bartneriaeth sifil

☐ Wedi ysgaru neu roedd eu partneriaeth sifil wedi'i diddymu — Dyddiad yr ysgariad neu'r diddymiad

☐ Gwraig weddw/gŵr gweddw/partner sifil sy'n goroesi — Dyddiad marwolaeth priod/partner sifil

☐ Mewn perthynas gydag unigolyn ☐ Sengl ☐ Wedi gwahanu

3.4 Nodwch unrhyw achosion Llys Gwarchod blaenorol mewn perthynas â'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef

Cyfeirnod

Dyddiad yr achos

## Adran 4 – Eich cais

4.1 Pa orchymyn ydych chi'n gofyn i'r llys ei wneud?

4.2 Os yn ceisio penodi fel dirprwy

☐ Unig ddirprwyaeth

☐ Cyd ddirprwyaeth

☐ Ar y cyd ac yn unigol

## Adran 5 – Pobl y cyflwynir/yr hysbysir am y cais hwn

### Ceisiadau Dirprwyaeth Eiddo a Materion

Os ydych yn gwneud cais dirprwyaeth eiddo a materion

- **ar bapur,** mae'n rhaid i chi lenwi'r tablau yng **nghwestiwn 5.1 (a) a (b)**
- ar gyfer math arall o gais ewch i **gwestiwn 5.2A**

5.1 **(a) Yr unigolyn mae'r cais hwn yn ymwneud â nhw**

Dyma'r unigolyn a enwir yng nghwestiwn 3.1 ar y ffurflen hon. Dylid eu hysbysu'n bersonol gan y ceisydd neu asiant drwy ddefnyddio ffurflen **COP14PADep**. Dylid anfon y ffurflen **COP14PADEP** a lenwyd gyda'r ffurflen gais **COP1**.

Gweler y nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon.

Pwy hysbysodd yr unigolyn?

☐ ceisydd

☐ asiant (atodwch gopi o'r ffurflen **COP14PADep** wnaeth eich asiant ei defnyddio)

**(b) Unigolion eraill â diddordeb yn y cais**

Mae'n rhaid i chi hysbysu **o leiaf 3 o bobl eraill** â diddordeb yn eich cais a rhoi ffurflen **COP15PADep** iddynt, neu wneud cais yn defnyddio ffurflen **COP9** i hepgor hysbysu.

Rhowch fanylion isod.

Gweler y nodiadau canllaw ar ddiwedd y ffurflen hon.

| Enw a chyfeiriad llawn yr unigolyn a hysbyswyd gan gynnwys cod post | Eu perthynas â'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw | Dyddiad yr anfonwyd ffurflen COP15PADep atynt | Sut wnaethoch anfon ffurflen COP15PADep atynt? (e.e. drwy'r post, e-bost neu'n bersonol)? | Wnaethon nhw ddychwelyd ffurflen COP15PADep i chi? Do/ Naddo | Atodaf y ffurflen COP15PADep a ddychwelwyd Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

Llenwch 5.2A a 5.2B yn unig **os nad** yw eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion

5.2A Rhowch fanylion pob unigolyn a wasanaethir

| Enw llawn gan gynnwys teitl | Perthynas | Cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

5.2B Rhowch fanylion pawb a hysbysir am y cais hwn

| Enw llawn gan gynnwys teitl | Perthynas | Cyfeiriad llawn gan gynnwys y cod post |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Adran 6 - Caniatâd

Os nad ydych angen caniatâd, ewch i adran 7

6.1 Ar gyfer beth ydych yn ceisio caniatâd?

☐ I wneud cais i gychwyn achos?

6.2 Beth yw eich rhesymau dros wneud y cais?

6.3 Sut fyddai'r gorchymyn rydych wedi'i nodi yn Adran 8.1 o'r COP1B (gwybodaeth gefnogol ceisiadau lles personol) o fudd i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw? A oes unrhyw ffordd arall y gellir cyflawni'r budd hwn?

## Adran 7 – Mynychu gwrandawiadau llys

7.1 Os yw'r llys angen i chi fynychu gwrandawiad ydych chi angen unrhyw gymorth neu gyfleusterau arbennig? ☐ Ydw ☐ Nac ydw

Os Ydw, nodwch beth yw eich anghenion. Os oes angen, efallai y bydd staff y llys yn cysylltu â chi am eich anghenion.

# Datganiad gwirionedd

**Deallaf/mae'r ceisydd yn deall y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw unigolyn sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.**

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

☐ Mae'r **ceisydd** yn credu fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac unrhyw ddalennau ychwanegol, yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

Mae llofnod teipiedig yn ddigonol.

☐ Ceisydd

☐ Cyfaill cyfreitha (pan fo'r ceisydd yn blentyn neu'n barti gwarchodedig)

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

**Dyddiad**

Dydd | Mis | Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni'r cynrychiolydd cyfreithiol

Os llofnodir ar ran ffyrm neu gwmni, safle neu swydd a ddelir

# Nodiadau canllaw ar lenwi Ffurflen gais ffurflen COP1

**Darllenwch y nodiadau canlynol yn ofalus cyn llenwi ffurflen COP1 a gwneud eich cais i'r llys.**

Os ydych yn dymuno dechrau achos yn y Llys, ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o geisiadau rhaid i chi lenwi ffurflen **COP1** a'r atodiad perthnasol a'u ffeilio gyda'r llys. Cyfeiriwch at Adran 1 o'r ffurflen a'r tabl ar ddiwedd y nodiadau hyn i benderfynu pa ffurflenni y mae angen i chi eu llenwi.

Mae yna ffordd wahanol i wneud cais i benodi dirprwy eiddo a materion i reoli arian unigolyn. Dylai'r math yma o gais nawr gael ei wneud ar-lein yn www.gov.uk, er os ydych yn cael anhawster gyda hynny, gallwch barhau i wneud y cais yn defnyddio ffurflen **COP1** drwy'r post i'r llys.

**Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer ceisiadau dirprwy eiddo a materion**
Os ydych yn dymuno gwneud cais i benodi dirprwy eiddo a materion, byddwch angen hysbysu'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw ac o leiaf 3 o bobl eraill gyda diddordeb yn y cais **cyn** i chi wneud y cais. Dyma'r achos pa un a ydych yn gwneud cais ar-lein neu'n ei anfon yn y post. Rydych angen cwblhau hysbysu pob un o'r bobl hyn 14 diwrnod **cyn** i chi gyflwyno'ch cais i'r llys.

Rydych angen defnyddio ffurflen **COP14PADep** i hysbysu'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw a ffurflen **COP15PADep** i hysbysu o leiaf 3 o bobl eraill am y cais.

**Sylwch:** Mae'r gofyniad i hysbysu pobl cyn anfon eich cais i'r llys yn berthnasol i geisiadau ar gyfer penodi dirprwy eiddo a materion yn unig. Nid yw'n berthnasol i unrhyw fath o gais arall.

**Mathau eraill o gais**
Os yw eich cais yn ymwneud ag: **amddifadu o ryddid o dan adrannau 4A(3) neu 21A o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005**; **gwrthwynebiad** i gofrestru **atwrneiaeth arhosol**; neu **gofrestru** atwrneiaeth barhaus, rydych angen llenwi ffurflen gais wahanol.

**Os ydych eisoes wedi gwneud cais** bydd arnoch angen llenwi ffurflen COP9 Rhybudd o gais ar gyfer 'ceisiadau o fewn achosion'.

Os ydych yn apelio penderfyniad Llys Gwarchod, rydych angen llenwi ffurflen **COP35**, Hysbysiad apelydd.

**Ffioedd a chostau**
Mae'n rhaid i chi dalu ffi pan fyddwch yn gwneud cais. Cyfeiriwch at daflen **COP44** Llys Gwarchod - Ffioedd am fanylion. Mae'r daflen ar gael ar www.gov.uk

Os ydych yn gwneud cais ar-lein i fod yn ddirprwy eiddo a materion gallwch dalu eich ffi ar-lein.

Mae'n bosibl y byddwch angen talu unrhyw gostau cyfreithiol neu unrhyw gostau sydd gennych mewn cysylltiad â'ch cais. Mewn rhai sefyllfaoedd mae'n bosibl y caniateir i chi dderbyn ad-daliad o arian yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw. Os yw'r llys yn ystyried eich bod wedi ymddwyn yn afresymol, gall orchymyn i chi dalu costau partïon eraill.

## Sut i lenwi ffurflen COP1

**Math o gais (Adran 1)**
Nodwch pa fath o gais yr ydych yn bwriadu ei wneud drwy roi tic yn y blwch perthnasol. Os ydych angen gwneud mwy nag un cais, er enghraifft i benodi dirprwy, a phenodi neu ryddhau ymddiriedolwr; rhaid i chi gyflwyno ceisiadau ar wahân.

Ni all y llys dderbyn eich cais oni bai eich bod yn anfon yr holl ffurflenni perthnasol gyda'ch cais. Cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd y nodiadau hyn i benderfynu pa ffurflenni eraill y mae angen i chi eu llenwi.

**Eich cais (Adran 4)**
Rydych angen nodi pa orchymyn neu ddatganiad rydych yn gofyn i'r llys ei wneud. Ym mhob achos, mae'r llys angen penderfynu pa un a yw'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw yn gallu gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r mater sy'n yn ymwneud â'ch cais.

Rhowch fanylion penodol am yr hyn yr ydych eisiau i'r llys ei wneud. Er enghraifft, efallai eich bod yn gofyn i'r llys benodi dirprwy, neu eich bod eisiau i'r llys orchymyn bod yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw yn symud i breswylfa benodol, neu y gwneir buddsoddiad penodol.

Ym mhob enghraifft, byddech angen egluro pam bod angen penodi dirprwy, neu roi manylion penodol am y breswylfa neu fuddsoddiad.

Dylech hefyd egluro i'r llys pam y bydd y gorchymyn neu'r datganiad rydych yn ei geisio o fudd i'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw. Os ydych yn gofyn i'r llys benodi dirprwy, eglurwch pam yr ydych yn meddwl bod hyn yn ofynnol a pham na ddylai'r llys wneud y penderfyniad ar ran yr unigolyn y mae'r cais

yn ymwneud â nhw.

**Cwestiwn 5.1**
Yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw

Os ydych yn gwneud cais i benodi dirprwy eiddo a materion **ar bapur**, byddwch angen llenwi cwestiynau 5.1(a) a (b) i ddechrau.

Dylech chi neu rywun arall (eich 'asiant') ymweld â'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw, egluro iddynt am beth mae'r cais a pham ei fod yn cael ei wneud, a rhoi ffurflen **COP14PADep** iddynt ei llenwi gyda manylion y cais, i roi'r cyfle iddynt ffeilio ymateb gyda'r ceisydd neu'n uniongyrchol gyda'r llys. Dylech hefyd anfon copi o'r ffurflen **COP14PADep**.

Os bydd rhywun arall (eich 'asiant') yn hysbysu'r unigolyn, byddwch angen anfon copi o'r ffurflen **COP14PADep** a roddwyd ganddynt i'r unigolyn a hysbysir i'r llys gyda gweddill eich cais, wedi'i llofnodi gan yr asiant. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gall achosi oedi gyda'ch cais.

Yn y blwch yn 5.1(a) rydych angen hysbysu'r llys;

- pwy hysbysodd yr unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw;
- y dyddiad y cawsant eu hysbysu a derbyn ffurflen **COP14PADep**;
- pa un a wnaeth yr unigolyn a hysbyswyd ddychwelyd eu ffurflen **COP14PADep** i chi (os gwnaethant, rhaid i chi gynnwys copi gyda'ch cais)
- os gwnaethoch hysbysu'r unigolyn eich hun, disgrifiad o sut wnaethoch hynny, pa un a oeddent yn ymddangos yn deall hyn, a pha un a wnaethant ddweud neu wneud rhywbeth mewn ymateb i'ch hysbysiad.

**Unigolion eraill â diddordeb yn y cais**
Os ydych yn gwneud cais i benodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion rydych angen llenwi adran 5.1(b) hefyd.

Rydych angen hysbysu **o leiaf 3 o bobl** â diddordeb yn eich cais amdano, drwy anfon neu roi ffurflen **COP15PADep** wedi'i llenwi iddynt. Dylech wneud hyn o leiaf 14 diwrnod cyn anfon eich cais llawn.

Os nad ydych yn hysbysu o leiaf 3 o bobl, gall eich cais gael ei ohirio.

Dylai'r bobl a hysbysir gennych fod yn bobl sy'n debyg o fod â diddordeb mewn gwybod eich bod yn gwneud y cais, fel aelodau o deulu'r unigolyn a ffrindiau agos, ond gallwch hefyd hysbysu er enghraifft, gweithiwr cymdeithasol yr unigolyn, Meddyg Teulu neu reolwr cartref gofal.
Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 9B y llys yn cynnwys manylion llawn unigolyn y dylid ei hysbysu.

Os oes yna unigolion y dylid eu hysbysu ond nad ydych yn gallu gwneud hyn neu eich bod yn meddwl bod yna reswm pam na ddylid eu hysbysu, dylech anfon ffurflenni **COP9** a **COP24** gyda chais yn egluro pam a gofyn i'r llys os yw'n cytuno i hepgor yr angen i'w hysbysu.

Yn y blwch a ddarparwyd gadewch i'r llys wybod;

- enw a chyfeiriad llawn yr unigolyn yr ydych yn ei hysbysu
- dyddiad yr anfonwyd ffurflen **COP15PADep** atynt
- sut wnaethoch ddarparu'r ffurflen **COP15PADep** iddynt (drwy'r post, e-bost neu'n bersonol)
- whether they completed and returned for **COP15PADep** to you
- os felly, pa un a ydych wedi cynnwys copi o'r un a ddychwelwyd ganddynt gyda'ch cais (rhaid i chi roi copi o unrhyw ffurflen COP15PADep a ddychwelwyd i chi)

**Cwestiynau 5.2A a 5.2B**
Os ydych yn gwneud cais i benodi dirprwy eiddo a materion, peidiwch â llenwi cwestiynau 5.2A a 5.2B.

Dylech lenwi'r ddwy adran yma ar gyfer pob cais arall i'r llys heblaw ceisiadau i benodi dirprwy eiddo a materion.

Rhaid i chi roi manylion o leiaf tri o bobl y credwch yn rhesymol sydd â diddordeb sy'n golygu y dylid gwrando ar eu hachos yn y llys mewn cysylltiad â'r cais.

5.2A - Mae ymatebwyr yn debyg o fod yn bartïon i'r achos os dymunent.

Ar ôl i'r llys gyflwyno eich ffurflen gais, dylech roi copi o bob dogfen sy'n ymwneud â'ch cais i'r bobl a restrwyd yng nghwestiwn 5.2A, er mwyn rhoi cyfle iddynt gefnogi neu wrthwynebu eich cais.

5.2B - Pobl eraill i'w hysbysu

Ar ôl i'r llys gychwyn eich cais, rhaid i chi hysbysu'r unigolion a restrwyd yng nghwestiwn 5.2B am eich cais. Yna gallant ofyn i'r llys i ymuno fel partïon i'r achos os byddant yn dymuno cymryd rhan.

Os nad ydych wedi enwi'r unigolion canlynol fel ymatebwyr eto, dylid hysbysu o leiaf tri ohonynt (yn y

drefn flaenoriaeth o'r uchaf i lawr):

a) priod neu bartner sifil yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw
b) unigolyn nad yw'n briod iddynt na phartner sifil ond sydd wedi bod yn byw gyda'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw
c) rhiant neu warcheidwad
d) plentyn
e) brawd neu chwaer
f) taid/nain neu ŵyr/wyres
g) modryb neu ewythr
h) nith neu nai
i) llys-riant
j) hanner brawd neu hanner chwaer

Ble rydych yn meddwl y dylid hysbysu'r unigolyn a restrwyd yn un o'r categorïau, a bod yna unigolion eraill yn yr un categori (e.e. mae gan yr unigolyn bedwar brawd neu chwaer), yn gyffredinol dylech roi manylion pob un o'r rhai sy'n dod o fewn y categori hwnnw.

Nid ydych angen rhoi manylion ar gyfer aelodau o'r teulu sydd ag ychydig neu ddim cysylltiad â'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw, neu bod yna reswm da arall pam na ddylid eu hysbysu. Mewn rhai achosion, efallai bod yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw yn agosach at bobl nad ydynt yn perthyn iddynt ac os felly, bydd yn briodol rhoi eu manylion nhw yn hytrach nag aelodau agos o'r teulu.

Gweler cyfarwyddyd ymarfer 9B am arweiniad pellach ar bwy i'w hysbysu am gais.

**Caniatâd (Adran 6)**
Mewn rhai achosion byddwch angen caniatâd y llys i wneud cais. Dylech lenwi adran 6 o'r ffurflen hon os ydych angen caniatâd y llys. Nid ydych angen caniatâd i wneud cais dirprwy eiddo a materion.

a) Nid ydych angen caniatâd y llys os yw'r cais:

- wedi'i wneud gan unigolyn heb allu neu yr honnir sydd heb allu (neu os yw'r unigolyn o dan 18 oed, gan unrhyw un â chaniatâd rhiant);
- wedi'i wneud gan y Cyfreithiwr Swyddogol, y Gwarcheidwad Cyhoeddus neu ddirprwy a benodwyd gan y llys;
- yn ymwneud ag eiddo a materion yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw;
- yn ymwneud ag atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus.
- yn gysylltiedig â chais sy'n ymwneud ag amddifadu o ryddid o dan adrannau 4A(3) neu 21A o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005; neu
- yn ymwneud â gorchymyn llys presennol a wneir gan unigolyn a enwyd yn y gorchymyn hwnnw.

b) Rydych angen caniatâd y llys ar gyfer pob cais arall. Ble mae rhan o'r cais yn ymwneud â mater sydd angen caniatâd, a rhan ohono ddim, byddwch angen caniatâd y llys ar gyfer y rhan honno sydd angen caniatâd yn unig.

**Mynychu gwrandawiadau'r llys (Adran 7)**
Os bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch ar gyfer anabledd neu nam, nodwch eich anghenion yn llawn. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth y llys am eich anghenion i osgoi achosi unrhyw oedi. Bydd staff y llys angen gwybod, er enghraifft, a ydych eisiau i ddogfennau gael eu darparu mewn fformat gwahanol, megis Braille neu brint bras. Byddant hefyd angen gwybod am unrhyw ofynion penodol os bydd yna wrandawiad, megis mynediad i gadair olwyn, system dolen clyw, neu ddehonglydd iaith arwyddion.

Os yw'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw yn blentyn, dylech roi manylion unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, fel y gellir cyflwyno eich cais iddynt. Os nad oes yna unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant, dylech enwi oedolyn sy'n byw gyda neu'n gofalu am y plentyn.

**Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf**
Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen hon, byddwch angen ystyried pa ffurflenni eraill y mae angen i chi eu llenwi. Bydd y ffurflenni i'w llenwi yn wahanol yn dibynnu ar y math o gais. Cyfeiriwch at y tabl ar ddiwedd y nodiadau hyn i'ch helpu i benderfynu pa ffurflenni i'w llenwi.

**Os byddwch yn gwneud eich cais ar bapur**
Anfonwch eich cais i'r Llys Gwarchod
PO Box 70185
First Avenue House 42-49
High Holborn Llundain
WC1A 9JA
Y Deyrnas Unedig

**Dogfennau eraill i'w ffeilio**
Efallai y bydd angen i chi ffeilio dogfennau eraill gyda'ch cais. Gall yr atodiad gyda'r ffurflen gais, neu'r cyfarwyddyd ymarfer nodi gwybodaeth neu ddeunydd ychwanegol sydd eu hangen, ond dylech hefyd ffeilio'r dogfennau canlynol, os yn briodol:

- Y gorchymyn yn penodi dirprwy, ble mae'r cais yn ymwneud â neu a wnaed gan ddirprwy;
- copi o unrhyw atwrneiaeth arhosol neu atwrneiaeth barhaus;
- y gorchymyn yn penodi cyfaill cyfreitha, ble gwneir y cais gan, neu ble mae'r cais yn ymwneud â phenodi cyfaill cyfreitha;
- gorchymyn y Llys Gwarchod, ble mae'r cais yn ymwneud â'r gorchymyn;
- gorchymyn llys arall, ble mae'r cais yn ymwneud â'r gorchymyn;
- unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig yr ydych yn bwriadu dibynnu arni (yn unol â chyfarwyddyd ymarfer perthnasol) yn defnyddio ffurflen datganiad tyst COP24; ac
- unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt gennych yn eich cais.

Heblaw'r ceisiadau dirprwy eiddo a materion, mae'r llys angen 2 gopi o'r ffurflen hon, ffurflen gais COP1 ac un copi o bob ffurflen neu ddogfen arall. Dylech gadw copi o bob ffurflen a dogfen ar gyfer eich cofnodion.

Pan fyddwch wedi llenwi'r holl ffurflenni, dylech eu hanfon i'r Llys Gwarchod, ynghyd ag unrhyw ffi. Am fanylion lle i anfon eich cais, gwiriwch y wefan: www.gov.uk/court-of-protection.

**Beth sy'n digwydd nesaf**

**Os ydych angen caniatâd i wneud cais**
Os yw eich cais yn ymwneud â lles personol a'ch bod angen caniatâd i wneud cais, bydd y llys yn ystyried eich cais am ganiatâd gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'ch ffurflen gais gael ei chyflwyno, a hysbysir chi pa un a roddwyd caniatâd, gwrthodwyd neu a drefnwyd dyddiad i ystyried caniatâd ar wahân.

Os rhoddir caniatâd a bod y llys wedi derbyn y ffurflenni cywir wedi eu llenwi, byddwch angen cyflwyno copi ar bob ymatebydd a hysbysu'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud â nhw a'r unigolion eraill a enwyd gennych yng nghwestiwn 5.2B o'r ffurflen.

**Os nad ydych angen caniatâd i wneud cais**
Os yw'r llys wedi derbyn y ffurflenni cywir wedi eu llenwi, bydd y llys yn cyflwyno eich ffurflen gais a bydd achos cyfreithiol yn dechrau. Bydd y llys yn eich hysbysu pan fydd eich ffurflen gais wedi'i chyflwyno ac yn dychwelyd copi dan sêl o'r ffurflen gais. Byddwch angen cyflwyno copi ar bob ymatebydd a hysbysu'r unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw a'r unigolion eraill a enwyd gennych yng nghwestiwn 5.2B o'r ffurflen hon.

Bydd ceisiadau ar gyfer penodi dirprwy eiddo a materion a wnaed drwy'r post yn defnyddio'r broses hysbysiad ymlaen llaw yn derbyn llythyr yn cadarnhau'r dyddiad y cyflwynwyd eich cais - ni fyddwch yn derbyn copi dan sêl yn ôl o'r COP1.

**Ymwrthodiad**
Nid yw staff y Llys Gwarchod yn gallu rhoi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â chyfreithiwr neu eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol. Credir bod yr wybodaeth yn y canllaw hwn yn gywir adeg argraffu; fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw gamgymeriad sydd ynddo. Os byddwch angen cymorth pellach gyda'ch cais, ewch i'r wefan: www.gov.uk/court-of-protection.

| Math o gais | Ffurflenni i'w llenwi | Ble i gael arweiniad pellach |
|---|---|---|
| Mae eich cais yn ymwneud ag eiddo a materion | • COP3 Asesu galluedd<br>• COP1A Atodiad A: Gwybodaeth gefnogol ar gyfer ceisiadau eiddo a materion. Os ydych yn gwneud cais i gael eich penodi fel dirprwy ar gyfer eiddo a materion yna dylech hefyd lenwi:<br>• COP4 Datganiad y dirprwy<br>• Ffurflen COP14P&ADep yn cadarnhau pryd neu sut yr hysbyswyd yr unigolyn mae'r cais yn ymwneud â nhw<br>• Ffurflenni COP15P&ADep (os dychwelwyd y rhain i chi gan yr unigolyn a hysbyswyd) | • Cyfarwyddyd ymarfer 9A y ffurflen gais<br>• Cyfarwyddyd ymarfer 9H Ceisiadau Dirprwyaeth Eiddo a Materion<br>• COP GN1 Ceisiadau i benodi dirprwy ar gyfer eiddo a materion |
| Mae eich cais yn ymwneud â lles personol | • COP3 Asesu galluedd<br>• COP1B Atodiad B: Gwybodaeth gefnogol ar gyfer ceisiadau lles personol. Os ydych yn ymgeisio i gael eich penodi fel dirprwy ar gyfer lles personol yna rhaid i chi hefyd lenwi:<br>• COP4 Datganiad y dirprwy | • Cyfarwydd ymarfer 8A Caniatâd<br>• Cyfarwyddyd ymarfer 9A y ffurflen gais<br>• COP GN4 Gwneud cais lles personol i'r Llys Gwarchod |
| Mae eich cais yn ymwneud ag ewyllys statudol, codisil, rhodd(ion) gweithred amrywio neu setliad eiddo | • COP3 Asesu galluedd<br>• COP1C Atodiad C: Gwybodaeth gefnogol ceisiadau sy'n ymwneud ag ewyllys statudol, codisil, rhodd(ion) gweithred amrywio neu setliad eiddo | • Cyfarwyddyd ymarfer 9A y ffurflen gais<br>• Cyfarwyddyd ymarfer 9E Cais sy'n ymwneud ag ewyllysiadau statudol, codisiliau, setliadau a phethau eraill sy'n ymwneud ag eiddo P<br>• COP GN8 Ceisiadau ewyllysiau statudol, codisiliau,setliadau a phethau eraill sy'n ymwneud ag eiddo P |
| Mae eich cais yn ymwneud â phenodi neu ryddhau ymddiriedolwyr | • COP1D Atodiad D: Gwybodaeth gefnogol ceisiadau i benodi neu ryddhau ymddiriedolwr<br>• COP12 Ymgymeriad arbennig gan ymddiriedolwyr | • Cyfarwyddyd ymarfer 9A y ffurflen gais<br>• Cyfarwyddyd ymarfer 9F Ceisiadau i benodi neu ryddhau ymddiriedolwr<br>• COP GN2 Canllawiau ar werthu eiddo sydd mewn cydberchnogaeth |
| Mae eich cais yn ymwneud â gorchymyn dirprwy presennol neu atwrneiaeth barhaus neu arhosol a gofrestrwyd | • COP1E Atodiad E: Gwybodaeth gefnogol ar gyfer cais gan ddirprwy neu atwrnai presennol<br>• COP24 Datganiad tyst (os yn ofynnol) | • Cyfarwyddyd ymarfer 9D, Ceisiadau gan ddirprwyon a benodwyd ar hyn o bryd, atwrneiod a derbynwyr rhodd mewn perthynas ag eiddo a materion P. |
| Mae eich cais yn ymwneud â gweithrediad a dilysrwydd atwrneiaeth barhaus neu atwrneiaeth arhosol | • COP1F Atodiad F: Gwybodaeth gefnogol i geisiadau sy'n ymwneud â gweithrediad a dilysrwydd atwrneiaeth barhaus neu atwrneiaeth arhosol<br>• COP24 Datganiad tyst (os yn ofynnol) | • Cyfarwyddyd ymarfer 9A y ffurflen gais |